Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

# Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i:
# Cais am Dystiolaeth- Cyfiawnder Agored: Y Ffordd Ymlaen

Yn cau 07 Medi 2023
Ymateb a gyflwynwyd drwy'r e-bost

## Cwestiynau

**1. Eglurwch beth mae egwyddor cyfiawnder agored yn ei olygu yn eich barn chi.**

Mae’r term ‘cyfiawnder agored’ yn golygu’r systemau sydd ar waith i sicrhau bod gwybodaeth briodol, hygyrch a chlir ar gael i aelodau’r cyhoedd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o’r broses gyfreithiol mewn gwlad benodol, a’u bod yn ei deall. Dylai cyfiawnder agored ganiatáu i bobl heb unrhyw wybodaeth wneud ymholiadau cyfyngedig er mwyn canfod eglurhad o sut mae’r system farnwrol a’r prosesau o’i mewn yn gweithio. Mae’n golygu bod modd i aelodau’r cyhoedd ganfod yn rhwydd beth i’w ddisgwyl os bydd unigolyn yn rhan o broses farnwrol a beth yw eu hawliau, fel troseddwr neu ddioddefwr.

**2. Eglurwch a ydych chi’n teimlo bod pwerau barnwrol annibynnol yn cael eu gwneud yn glir i’r cyhoedd, ac unrhyw farn arall sydd gennych am y pwerau hyn.**

Annibyniaeth farnwrol yw maen clo y broses farnwrol yng Nghymru a Lloegr. Credir bod sefyllfa’r farnwriaeth yn cael ei hegluro yn y wybodaeth a rennir gydag unigolion sy’n mynychu’r llys. Deallwn fod taflenni’n cael eu hanfon gyda gwahoddiadau i’r llys yn y rhan fwyaf o achosion, er mwyn egluro bod y farnwriaeth yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol ar sail eu dehongliad o sut mae sefyllfa benodol yn cyd-fynd â’r gyfraith bresennol. Mae hefyd yn sicrhau na ddylai’r broses gael ei dylanwadu gan wleidyddiaeth a dylai fod yn annibynnol ar ddylanwadau eraill gan gynnwys y cyfryngau.

**3. Beth yw eich barn am ba mor agored a thryloyw yw’r system gyfiawnder ar hyn o bryd?**

Er bod cred bod awydd i fod yn agored a thryloyw, nid ydym yn credu bod hyn yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd. Heb ormod o ymdrech, mae’n gymharol rhwydd dod o hyd i wefan Barnwriaeth y Llysoedd a Thribiwnlysoedd (https://www.judiciary.uk/) lle mae llawer o wybodaeth ar gael os gallwch chi ddefnyddio’r wefan.

Fodd bynnag, mae problem hygyrchedd glir i unigolion nad oes ganddynt fynediad i’r rhyngrwyd neu unigolion nad ydynt yn gallu defnyddio cyfrifiadur neu ddarllen Saesneg. Mae hyn yn golygu na fyddai mynediad ar gael i unigolion nad ydynt yn gallu darllen Saesneg neu sydd â dewis iaith gwahanol, fel pobl fyddar, siaradwyr Cymraeg neu ddefnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain, er enghraifft. Mae gofyniad yng Nghymru bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal â’r Saesneg, a dylai hyn olygu y dylai’r wybodaeth gyffredinol fod ar gael yn ddwyieithog, er bod penderfyniadau yn yr iaith a gytunwyd gan y rhai yn y system gyfiawnder. Mae’n glir ar wefannau’r Llywodraeth y gellir siarad Cymraeg mewn llysoedd a thribiwnlysoedd.

Mae gan Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru adran am Gyfiawnder Troseddol ar eu gwefan (https://cymunedaumwydiogel.cymru/troseddau-a-

chyfiawnder/) sydd ar gael yn Gymraeg. Mae'r adnoddau sydd ar gael ar dudalen Barnwriaeth y Llysoedd a Thribiwnlysoedd, fel yr animeiddiad hwn, The Rule of Law - Barnwriaeth y Llysoedd a Thribiwnlysoedd (https://www.judiciary.uk/how-the-law-works/the-rule-of-law/) yn ddefnyddiol iawn ond cyfyngedig.

Teimlwn fod llawer mwy y gellid ei wneud, o addysg mewn ysgolion, taflenni gwybodaeth hawdd eu deall mewn canolbwyntiau cymunedol a gorsafoedd heddlu i weminarau dynodedig sy'n canolbwyntio ar gymunedau, cyfres o sesiynau gwybodaeth i'r cyhoedd sydd ar gael mewn nifer o ieithoedd, a diweddaru'r wefan fel ei bod ar gael mewn nifer o ieithoedd ac mewn fformat hawdd ei ddeall i gynorthwyo pobl ag anableddau dysgu (neu bobl iau, pobl hŷn neu rai sy'n prosesu gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd).

Gan nad yw'r system gyfiawnder wedi'i datganoli yng Nghymru, mae haen ychwanegol o gymhlethdod a all beri dryswch. Gobeithio y bydd gweithio mewn partneriaeth â'r weinyddiaeth ddatganoledig a thrwy Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru yn helpu i nodi lle dylid cryfhau gwybodaeth i'r cyhoedd a lle gellir gwneud hynny.

**4. Beth yw'r ffordd orau i ni barhau i ymgysylltu â'r cyhoedd ac arbenigwyr ar ddatblygu a gweithredu polisi cyfiawnder agored ar ôl i'r cais hwn am dystiolaeth ddod i ben?**

Byddem yn awgrymu ymgysylltiad parhaus â grwpiau partneriaeth a Rhwydweithiau fel Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru, Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru a sefydliadau fel Cymorth i Ddioddefwyr. Byddem hefyd yn awgrymu ymgysylltu â'r trydydd sector ehangach sydd â phrofiad o ymgysylltu ag amrywiaeth o wahanol gymunedau a thrwy amrywiaeth o wahanol ddulliau, a gallai rhai o'r rhain gynnwys Pobl yn Gyntaf (sefydliad anableddau dysgu), RNIB, RNID a ProMo Cymru (mae pobl ifanc yn rhedeg Meic).

**5. A oes materion polisi penodol o fewn cyfiawnder agored y dylem roi blaenoriaeth i ymgysylltu â'r cyhoedd yn eu cylch?**

Iaith a jargon a ddefnyddir i annog geirfa a rennir. Nid yw'n glir a yw'r gwahanol fathau'n cael eu deall ar lefelau is na chaiff eu hadrodd yn aml, ar lefel Llys Troseddol, Llys Ynadon, Llys Teulu, Tribiwnlysoedd.

Awgrymwn ei bod hi'n briodol o bosibl i ymgysylltu â dioddefwyr a'r rhai sy'n mynd trwy'r system gyfiawnder i ganfod beth fyddai'n ddefnyddiol iddyn nhw. Yn anecdotaidd, mae awgrym mai ychydig iawn o wybodaeth a chefnogaeth a roddir trwy'r system i rai sy'n cefnogi rhai sy'n rhoi tystiolaeth, boed hynny fel dioddefwyr neu dystion, os o gwbl, ac y gallai ymgysylltu â nhw gynorthwyo i wella darpariaeth cyfiawnder agored.

**6. A yw'n ddefnyddiol i chi bod rhestrau llysoedd a thribiwnlysoedd yn cael eu cyhoeddi ar-lein a beth ydych chi'n defnyddio'r wybodaeth hon ar ei gyfer?**

Mewn egwyddor, credwn fod cyhoeddi rhestrau ar-lein yn ddefnyddiol, fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y gallai llysoedd newid weithiau am unrhyw nifer o resymau, felly mae'r rhai sy'n cefnogi dioddefwyr wedi dweud wrthym eu bod yn dal i ddibynnu ar restrau ysgrifenedig mewn llysoedd, neu bydd dioddefwyr a thystion eraill yn methu eu slot, a allai arwain at gamweinyddiad cyfiawnder. Ni ddylai cyhoeddi rhestrau ddigwydd yn lle cysylltu a hysbysu'r bobl sy'n rhan o'r achos. Dylai fod yn ffynhonnell i bartïon â diddordeb posibl ond nid i'r rhai sy'n rhan o'r trafodion.

7. **Ydych chi'n credu y dylid cael unrhyw gyfyngiadau ar ba wybodaeth y dylid ei chynnwys yn y rhestrau cyhoeddedig hyn (er enghraifft, enwi pob parti)?**

Ydym, rydym yn credu y dylid rhoi cyfyngiad ar pa wybodaeth a gaiff ei chynnwys yn y rhestrau a gyhoeddir ar-lein. Er enghraifft, os caiff cyfeiriad ei gyhoeddi, bydd yn y parth cyhoeddus am byth ond mae pobl ac unigolion yn symud tŷ. Gallai achosi problemau parhaus penodol hefyd lle mae achosion o ddwyn hunaniaeth wedi digwydd neu lle mae'r system yn cael ei cham-drin er mwyn aflonyddu neu frawychu trwy gyhuddiadau ffug. Gallai arwain at gyfiawnder vigilante heb fod angen fawr o ymdrech gan y sawl sy'n troseddu.

Dylai systemau fod ar waith i ddiogelu plant a phartïon diamddiffyn, yn enwedig rhai sydd wedi bod yn destun camfanteisio ac sydd felly eisoes yn agored i weithgareddau a chamfanteisio o'r fath.

Dylai mesurau diogelu barhau i fod ar waith i ddiogelu hunaniaeth y rhai sydd wedi dioddef trais rhywiol hefyd, rhai sydd wedi byw trwy un trawma, sydd eisoes yn ei ail-fyw trwy'r system gyfiawnder ac ni ddylent barhau i ddioddef trawma oherwydd ei fod ar gael wrth iddyn nhw chwilio am eu henw eu hunain, neu wrth i bobl eraill sy'n dymuno eu niweidio chwilio.

8. **Eglurwch a ydych chi'n teimlo y gellid gwella'r ffordd y mae cyfyngiadau adrodd yn cael eu rhestru ar hyn o bryd.**

Mae'n debyg bod cyfryngau traddodiadol fel papurau newydd, radio a theledu yn deall cyfyngiadau adrodd fel y maent ar hyn o bryd. Fodd bynnag, credwn ei bod yn bwysig nodi nad yw'r un cyfyngiadau'n berthnasol i gyfryngau cymdeithasol a'u bod ar agor i bawb. Felly, credwn y gallai fod yn briodol nodi rhai o'r cyfyngiadau mwyaf cyffredin mewn iaith glir, heb jargon, a hefyd beth mae hynny'n ei olygu i unrhyw un sy'n defnyddio unrhyw gyfryngau cymdeithasol neu blatfform arall neu AI i ychwanegu manylion at unrhyw un ohonynt a'r canlyniadau posibl.

9. **Ydych chi'n bwriadu neu ydych chi wrthi'n datblygu gwasanaethau neu nodweddion newydd ar sail mynediad at restrau'r llys cyhoeddus? Os felly, i bwy ydych chi'n ei ddarparu a pham mae ganddynt ddiddordeb yn y data hwn?**

Nid ydym ar yr amser yma.

10. **Pa wasanaethau neu nodweddion fyddech chi'n eu datblygu pe bai rhestrau cyfryngau ar gael (yn amodol ar drwyddedu priodol ac unrhyw gytundebau neu drefniadau eraill y mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn eu hystyried yn angenrheidiol) ar yr amod bod y gwasanaethau neu'r nodweddion dan sylw at ddefnydd aelodau achrededig o'r cyfryngau yn unig?**

Fel Rhwydwaith, gallai fod yn rhywbeth y gallem roi ystyriaeth iddo yn y dyfodol ond nid oes gennym farn am hyn ar hyn o bryd.

**11. Pe bai rhestrau cyfryngau ar gael (yn amodol ar drwyddedu priodol ac unrhyw gytundebau neu drefniadau eraill y mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn eu hystyried yn angenrheidiol) ar gyfer defnyddio sefydliadau trydydd parti i ddefnyddio a datblygu gwasanaethau neu nodweddion fel y gwelant orau, sut byddech chi'n defnyddio'r data hwn, i bwy fyddech chi'n ei ddarparu, a pham mae ganddynt ddiddordeb yn y data hwn?**

Fel Rhwydwaith, gallai fod yn rhywbeth y gallem roi ystyriaeth iddo yn y dyfodol ond nid oes gennym farn am hyn ar hyn o bryd. Mae'n bosibl y byddwn yn dangos y ffordd i unigolion a sefydliadau at le gallant gael y wybodaeth eu hunain ond ni fyddem yn debygol o ddefnyddio'r data ein hunain i'w rannu gyda thrydydd parti. Fodd bynnag, pe bai hyn yn digwydd, byddem yn ei rannu gydag aelodau penodol yn unig, y byddai'n berthnasol iddynt – a gallai hyn fod yn gyfyngedig i Blismona yng Nghymru, Cynghorau, Gwasanaethau Tân ac Achub, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Gwasanaeth Prawf fel ein haelodau cyrff statudol, yn dibynnu ar y rheswm a'r pwnc.

Nid beth fydd y wasg ac academyddion sydd eisoes â mynediad at y wybodaeth yn ei wneud sy'n ein pryderu, ond beth allai'r grwpiau troseddu cyfundrefnol ac unigolion â bwriad troseddol neu gamfanteisiol ei wneud â'r wybodaeth, pe bai ar gael yn fwy eang.

**12. Ydych chi'n ymwybodol bod gwasanaeth FaCT yn eich helpu i ddod o hyd i'r manylion cyswllt cywir ar gyfer llysoedd a thribiwnlysoedd unigol?**

Rydym yn ymwybodol o FaCT ond gwyddom ei bod bron yn amhosibl dod o hyd iddo ar ei ffurf gryno gan ddefnyddio unrhyw un o'r adnoddau chwilio safonol, felly os yw bron yn amhosibl dod o hyd iddo, nid ydym yn siŵr pa mor ddefnyddiol yw ar hyn o bryd. Rydym yn falch o nodi bod y gwasanaeth ar-lein hwn ar gael yn Gymraeg. Mae'n debyg mai dim ond ar-lein mae'r gwasanaeth ar gael, felly nid yw'n glir sut gallai pobl sydd wedi'u heithrio'n ddigidol gael mynediad at yr un wybodaeth.

**13. A oes unrhyw beth arall y gallai gwasanaethau digidol fel FaCT ei gynnig i'ch helpu i gael mynediad at lysoedd a thribiwnlysoedd?**

Eglurhad cam wrth gam o sut le yw ystafell llys neu dribiwnlys safonol, yn enwedig i bobl â phroblemau iechyd meddwl neu bobl niwrowahanol, er mwyn iddynt fod â gwell dealltwriaeth pan fyddant yn mynychu.

**14. Beth yw eich barn gyffredinol am fanteision a risgiau caniatáu ar gyfer arsylwi o bell a ffrydio achosion llys agored yn fyw ac ar gyfer beth gellid ei ddefnyddio yn y dyfodol?**

Y manteision yw y gallai hyn alluogi pobl â diddordeb i fod yn bresennol heb fod angen teithio. Y risgiau yw fod hyn yn cael ei gamddefnyddio a gallai fod yn anoddach monitro unrhyw waith recordio neu ffotograffiaeth. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gellid datrys hyn gan ddefnyddio prosesau tebyg i'r rhai a ddefnyddir yn ystod croesholi o bell. Gallai fod rôl ar gyfer AI yn y dyfodol i fonitro a rhoi gwybod am unrhyw ymddygiad rhyfedd neu ymddygiad sydd wedi'i wahardd.

Mae risg bosibl y caiff ei ddefnyddio i godi ofn ar dystion hefyd. Os mai dim ond pedwar neu bump o arsylwyr sydd tan un tyst, ac wedyn bod ugain, gallai hynny fod yn arwydd o

godi ofn neu aflonyddu parhaus ar y tyst. Rhywbeth na chaiff ei ganiatáu mewn llys ond y gellid ei alluogi trwy dechnoleg.

Byddai angen mesurau diogelu hefyd pe bai unrhyw dechnoleg yn cael ei defnyddio i atal unrhyw dystion rhag gallu cael eu hadnabod, er mwyn gwneud yn siŵr na ellid gwrthwneud hyn o bell, naill ai gan unigolion neu trwy ddefnyddio AI.

**15. Ydych chi'n credu y dylid caniatáu i bob aelod o'r cyhoedd arsylwi gwrandawiadau llys a thribiwnlys agored o bell?**

Ydym, oherwydd mae hyn yn annog egwyddor cyfiawnder agored, ond dylid gosod amodau penodol. Er enghraifft, dylent gael eu gweld ar gamera bob amser, nid dim ond eu hwynebau ond rhan uchaf eu corff hefyd oherwydd gall hyn atal recordio, ffotograffiaeth neu ffilmio anghyfreithlon. Mae'n rhaid iddynt ddarparu eu henw llawn, eu hoedran a'u cyfeiriad a dull adnabod â llun y mae modd ei wirio (fel trwydded yrru neu basbort). Yr unig eithriad fydd pan fo unrhyw orchymyn llys presennol sy'n gwahardd unigolion rhag bod yn agos at unigolyn arall. Bryd hynny, dylid trin y mynediad o bell yn yr un ffordd â phe bai'r unigolyn â'r gorchymyn yn bresennol yn y llys, neu gallai hyn gyfrannu at eu hymddygiad parhaus ac achosion posibl o godi ofn neu aflonyddu ar ddioddefwr, tyst, diffynnydd neu swyddog y llys.

Dylai'r llys neu'r tribiwnlys ddiffodd eu meicroffonau hefyd fel na allant amharu ar yr achos. Er enghraifft, ni fyddai chwiban ci yn cael ei ddefnyddio mewn llys, ond gellid ei ddefnyddio o bell heb sylwi. Ond gall rhai unigolion niwrowahanol glywed chwiban ci a gallai achosi anghysur iddynt wrth iddynt arsylwi neu wrth roi tystiolaeth.

Wrth fynychu'r llys, mae'n golygu bod modd darllen y geiriau ac iaith y corff. Wrth fynychu o bell, gallai elfennau cynnil, di-eiriau y byddai rheithgor neu bobl yn y llys yn sylwi arnynt, gael eu methu. Gallai hyn olygu bod pobl yn teimlo bod camweinyddu cyfiawnder wedi digwydd oherwydd gallai rhywbeth y byddai rheithgor yn sylwi arno gael ei fethu trwy'r ffrwd o bell.

**16. Ydych chi'n credu y dylai'r cyfryngau allu mynychu pob achos llys agored o bell?**

Ydym, am yr un rhesymau ag a roddwyd i gwestiwn 15. Yn ogystal, gallai ganiatáu i newyddiadurwr fynychu mwy nag un achos ar yr un diwrnod mewn gwahanol lysoedd neu dribiwnlysoedd. Dylid bod â gofyniad mai dim ond un ar y tro y cânt ei fynychu, fel nad oes modd iddynt arsylwi dau neu fwy ar yr un pryd, a fyddai'r un fath â phrosesau presennol. Gallai hefyd fod werth nodi, wrth fynychu'r llys, mae'n golygu bod modd darllen y geiriau ac iaith y corff. Wrth fynychu o bell, gallai elfennau cynnil, di-eiriau y byddai rheithgor neu bobl yn y llys yn sylwi arnynt, gael eu methu.

**17. Ydych chi'n credu y dylai pob gwrandawiad llys agored ganiatáu ar gyfer ffrydio byw ac arsylwi o bell? A fyddech chi'n eithrio unrhyw fathau o wrandawiadau llys rhag ffrydio byw ac arsylwadau o bell?**

Ydym, ac eithrio achosion sy'n ymwneud â phlant ac oedolion diamddiffyn, oherwydd dylai diogelu a diogelwch unigolion fod yn hollbwysig yn y broses. Ni ddylai unrhyw un ddioddef aflonyddu, bwlio na chamfanteisio o ganlyniad uniongyrchol i fynychu'r llys.

**18. A fyddech chi'n gosod cyfyngiadau ar adrodd ar achosion llys? Os felly, pa achosion a pham?**

Rydym yn awgrymu parhau i ddefnyddio cyfyngiadau fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Yn ein gweithdy, nodwyd bod y newid o ran adrodd o lysoedd teulu yn ddefnyddiol wrth alluogi cyfiawnder agored a gallu herio'r hyn y mae dioddefwyr wedi rhoi gwybod, ac yn parhau i roi gwybod, ei fod yn arfer gwael neu ddrwg. Ni theimlwyd y dylid agor hyn ymhellach oherwydd gallai beri risg o adnabod plant a dioddefwyr diamddiffyn eraill, gan ychwanegu at eu trawma.

**19. Ydych chi'n meddwl bod unrhyw fathau o adeiladau a fyddai'n arbennig o ddefnyddiol i wneud safle ffrydio byw dynodedig?**

Nid oes gennym farn am unrhyw adeiladau y dylid eu dynodi ar gyfer ffrydio byw, ond credwn na fyddai'n briodol defnyddio unrhyw adeilad a ddefnyddir er mwyn i ddioddefwyr ddarparu tystiolaeth fideo, oherwydd gallai beri risg i ddiogelwch a hawl y plentyn neu oedolyn hwnnw i fod yn ddi-enw.

**20. Sut gallai'r broses o gael mynediad at wrandawiad arsylwi o bell fod yn haws i'r cyhoedd a'r cyfryngau?**

Gallai'r broses ar gyfer trefnu i fynychu fod yn broses ar-lein, ond gellid gwirio manylion wrth gael mynediad, yn unol â'n hatebion blaenorol. Er ein bod yn cytuno y dylai fod yn hawdd a didrafferth cael mynediad, mae angen i ni barhau i sicrhau bod diffynyddion a dioddefwyr yn parhau i gael eu diogelu trwy'r system.

**21. Yn eich barn chi, beth yw manteision darlledu achosion llys i'r cyhoedd?**

Sicrhau bod modd i unrhyw un eu gweld a galluogi mwy o gyfleoedd i arsylwi, gwylio pan fo'n gyfleus a dim ond rhannau y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt. Fodd bynnag, gyda darllediad, nid oes ffordd o wybod pwy sydd wedi'i weld nac i ba bwrpas y byddant yn ei ddefnyddio.

**22. Rhowch fanylion y mathau o achosion llys y credwch y dylid eu darlledu a pham y byddai hyn o fudd i'r cyhoedd? A oes unrhyw fathau o achosion na ddylid eu darlledu?**

Rydym yn credu y dylai cyfyngiadau i ddiogelu plant, oedolion diamddiffyn a rhai sydd wedi dioddef ymosodiad rhywiol ac ati barhau i fod ar waith. Yn ogystal, pe bai achos troseddol yn cael ei ddarlledu, sut allai neu fyddai'n effeithio ar bosibilrwydd o aildreial.

Ym mhob achos, dylid ceisio barn y dioddefwyr neu'r dioddefwyr honedig a rhoi ystyriaeth iddi.

**23. Ydych chi'n meddwl bod unrhyw risgiau i ddarlledu achosion llys?**

Oes, gallai'r risg ddod o ddwy ffynhonnell. Y gyntaf yw os bydd aildreial, sut i sicrhau ei fod yn deg ac nad yw'r un aelod o'r darpar reithgor wedi gweld unrhyw ran o'r achos cyntaf. Yr ail yw, wrth glywed tystiolaeth, gallai pobl eraill benderfynu a yw'r diffynnydd yn euog neu beidio, ar sail tystiolaeth. Gallai eu barn fod yn wahanol i'r rheithgor a gallai gynyddu'r risg o weithgarwch vigilante neu gallai aelodau'r rheithgor gael eu targedu am ddod i gasgliad gwahanol.

**24. Beth yw eich barn am waharddiad 1925 ar ffotograffiaeth a gwaharddiad 1981 ar recordio sain yn y llys ac a ydynt yn dal yn addas i'r diben yn yr oes fodern? A oes technolegau eraill sy'n dod i'r amlwg lle dylem ystyried ein polisi mewn perthynas â defnydd yn y llys**

Gellid codi'r gwaharddiad ar ffotograffiaeth o bosibl, ond mae recordio sain yn fater gwahanol, oherwydd gallai'r gallu i'w olygu a'i ail-bwrpasu arwain at ei gamddefnyddio. Mae'r risg hon yn cynyddu wrth i dechnoleg AI ddod i'r amlwg, a mwy o gapasiti a sgil.

Gallai hefyd dynnu sylw pobl yn y llys os caniateir i bobl dynnu ffotograffau neu recordio, yn hytrach na dim ond defnyddio'r offer y cytunwyd arno. Gellid defnyddio hwn fel math ychwanegol o aflonyddu ar ddioddefwyr er mwyn codi ofn arnynt ac felly rydym yn credu y dylid cyfyngu ar hyn neu y dylid caniatáu camerâu a gymeradwywyd yn unig, mewn mannau penodol yn y llys. Felly, y farn o'n gweithdy oedd y dylid defnyddio disgresiwn at ddioddefwyr a theuluoedd a dylid ystyried eu barn.

Pan fo plentyn neu oedolyn diamddiffyn yn rhan o'r achos, dylai'r angen i gynnal protocolau diogelu fod yn hollbwysig, uwchlaw unrhyw ofyniad arall, gan gynnwys budd y cyhoedd neu geisiadau'r wasg.

**25. Yn eich barn chi, beth allai'r llywodraeth ei wneud i wella tryloywder y SJP?**

Gellid cynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth i egluro beth yw SJP a phryd mae'n briodol, a sut mae'n ymgysylltu â gweddill y system gyfiawnder.

**26. Sut gellid gwella'r broses o gyhoeddi achosion SJP ar hyn o bryd (ar CaTH)?**

Yn yr un modd â FaCT, nid yw CaTH yn ymddangos ar frig unrhyw beiriant chwilio, ar wahân i hyn, nid oes gennym unrhyw sylwadau pellach ar hyn o bryd.

**27. Yn eich profiad chi, ydy'r dyfarniadau llys neu benderfyniadau'r tribiwnlys sydd eu hangen arnoch chi ar gael i'r cyhoedd ar-lein? Rhowch enghreifftiau yn eich ymateb.**

Maen nhw ar gael ond nid yw'n ymddangos bod unrhyw amseroedd penodol, felly os ydych yn aros am ddyfarniad neu benderfyniad penodol, gall gymryd amser. Pe bai cyfnod penodol nes bod rhaid iddynt fod ar gael i'r cyhoedd, byddai hyn yn ddefnyddiol.

**28. Mae'r llywodraeth yn bwriadu cyfuno dyfarniadau llys a phenderfyniadau tribiwnlysoedd a gyhoeddir ar hyn o bryd ar safleoedd eraill y llywodraeth yn FCL, er mwyn i'r holl ddyfarniadau a phenderfyniadau fod ar gael ar un gwasanaeth, ar gael mewn fformat y gellir ei ddarllen gan beiriant ac yn amodol ar system drwyddedu FCL. Byddai safleoedd eraill y llywodraeth wedyn yn cael eu cau. Oes gennych chi unrhyw farn am hyn?**

Ein pryder yw y byddai llawer o wybodaeth mewn un lle a gallai fod yn anodd chwilio trwy'r wybodaeth, yn enwedig am enwau mwy cyffredin. Bydd y cyfleuster hidlo a'r adnodd chwilio yn bwysig.

**29. Mae'r llywodraeth yn gweithio tuag at gyhoeddi cofnod cyflawn o ddyfarniadau llys a phenderfyniadau tribiwnlys. Pa ddyfarniadau neu benderfyniadau hoffech chi eu gweld yn cael eu cyhoeddi ar-lein nad ydynt ar gael ar hyn o bryd? Pa**

**ddyfarniadau neu benderfyniadau na ddylid eu cyhoeddi ar-lein a'u darparu ar gais yn unig? Esboniwch pam.**

Gallai'r angen am unrhyw olygiad i ddiogelu unrhyw blentyn, oedolyn diamddiffyn neu ddioddefwr trais rhywiol gyfyngu ar gyfle a dewisiadau ar gyfer achosion hanesyddol nad ydynt wedi bod yn y parth cyhoeddus o'r blaen. Rydym yn pryderu y gallai arwain at fwy o drawma i ddioddefwyr neu ymdrechion i gamfanteisio neu aflonyddu, oherwydd bod mwy o wybodaeth yn y parth cyhoeddus.

Dylid ymgysylltu â dioddefwyr a sefydliadau a chyrff i ddioddefwyr fel rhan o'r gwaith o brosesu'r maes hwn, oherwydd y dioddefwyr sydd fwyaf tebygol o ddioddef.

**30. Ar wahân i ddyfarniadau llys a phenderfyniadau tribiwnlys, a oes cofnodion llys eraill y credwch y dylid eu cyhoeddi ar-lein a/neu ddylai fod ar gael ar gais? Os felly, esboniwch pam a sut.**

Nid ydym yn meddwl bod rhai ar hyn o bryd.

**31. Yn eich barn chi, sut gellir gwella'r broses o gyhoeddi dyfarniadau a phenderfyniadau er mwyn eu gwneud yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr technolegau cynorthwyol a defnyddwyr sydd â gallu digidol cyfyngedig? Rhowch enghreifftiau yn eich ymateb.**

Dylai'r dechnoleg a ddefnyddir alluogi darllen dogfennau, felly nid yw ffotograffau yn debygol o weithio oni bai bod y wybodaeth yn cael ei chynnwys yn y testun amgen a gaiff ei ddarllen ar gyfer delweddau. Os caiff fersiwn wedi'i golygu ei chyhoeddi, dylai'r dull golygu sicrhau nad yw'n bosibl ei darllen wedyn gan ddefnyddio technoleg gynorthwyol, gan olygu bod y wybodaeth wedi'i golygu ar gael yn rhwydd yn y parth cyhoeddus.

Os yw'r wybodaeth ar gael ar-lein, dylai fod yn bosibl i'r rhai sydd wedi'u heithrio'n ddigidol wneud cais naill ai i ddarllen copi trwy dechnoleg mewn adeiladau cyhoeddus fel llyfrgelloedd neu i gael copi caled yn bersonol, sy'n cyd-fynd â'r wybodaeth sydd ar gael ar-lein (gan gynnwys unrhyw olygiadau).

**32. Yn eich profiad chi, a yw cyhoeddi dyfarniadau neu benderfyniadau tribiwnlys wedi cael effaith negyddol ar ddefnyddwyr y llys neu aelodau ehangach o'r cyhoedd.**

Nid i ni wybod, ond mae risg lle mae pobl wedi'u cael yn ddieuog o droseddau mewn tribiwnlysoedd, y gallai darpar gyflogwyr ddefnyddio'r cyhoeddiadau yn eu herbyn neu y gallent alluogi aflonyddu neu aflonyddu parhaus pe bai'r achos wedi cael ei ddwyn ymlaen â bwriad maleisus.

**33. Pa wasanaethau neu nodweddion newydd sy'n seiliedig ar fynediad at ddyfarniadau llys a phenderfyniadau tribiwnlys ydych chi'n bwriadu eu datblygu neu ydych chi'n wrthi yn eu datblygu? Pwy yw'r gynulleidfa darged? (Er enghraifft, cyfreithwyr, busnesau, defnyddwyr llys, defnyddwyr eraill).**

Dim ar yr amser yma.

**34. Ydych chi'n defnyddio dyfarniadau o diriogaethau eraill i ddatblygu eich gwasanaethau/cynnyrch? Rhowch fanylion**

Dim ar yr amser yma ac nid ydym yn cynllunio i wneud.

**35. Ar ôl blwyddyn o weithredu, rydym yn adolygu'r Drwydded Drafodol. Yn eich profiad chi, sut mae'r Llys Agored a/neu'r Drwydded Drafodol wedi cefnogi neu gyfyngu ar eich gallu i ailddefnyddio dyfarniadau llys neu benderfyniadau tribiwnlys. Sut mae hyn yn cymharu â'ch profiad cyn mis Ebrill 2022? Rhowch enghreifftiau yn eich ymateb.**

Nid oes gennym profiad o ddefnyddio hwn, felly nid oed gennym ymateb.

**36. Wrth ddisgrifio'r defnydd o'r Drwydded Drafodol, rydym yn defnyddio'r term 'dadansoddi cyfrifiadurol'. Yr ydym wedi clywed gan randdeiliaid, fodd bynnag, fod y term yn rhy amwys. Pa derm(au) fyddai orau gennych chi? Esboniwch eich ateb.**

Rydym yn credu y gallai fod yn fwy priodol defnyddio'r term AI neu Ddeallusrwydd Artiffisial sy'n caniatáu ar gyfer amrywiaeth fwy eang o dechnoleg bosibl a dyma sut y cyfeirir ato ym mhob maes arall yr ydym yn gweithredu ynddynt. Rydym yn credu y byddai defnyddio'r term AI yn cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd hefyd a chyfyngu ar unrhyw ddadleuon ynghylch beth sy'n gyfrifiadur a beth nad yw'n gyfrifiadur.

**37. Ydych chi wedi chwilio am benderfyniadau tribiwnlys ar-lein ac os ydych chi wedi gwneud hynny, beth oedd eich profiad, a beth oedd eich rheswm dros chwilio?**

Mae gan aelodau'r Rhwydwaith amrywiaeth o ymatebion i'r cwestiwn ac felly nid yw'n briodol i ni ddarparu'r rhesymeg dros y chwilio. Fodd bynnag, mae'n debyg bod y system yn hawdd i'w defnyddio ond ei bod yn gymhleth pan fo enwau cyffredin neu gyrff ag enwau tebyg dan sylw.

**38. Ydych chi'n meddwl y dylai penderfyniadau tribiwnlys ymddangos mewn peiriannau chwilio ar-lein fel Google?**

Na, oherwydd gallai hyn achosi trawma i ddioddefwyr. Pe bai dioddefwr yn dewis chwilio'n benodol am y wybodaeth, mae hynny'n wahanol i'r hyn allai fod yn achos o algorithmau yn dwyn i gof profiad anodd a thrawmatig mewn ffordd annisgwyl.

Yn ogystal, caiff tribiwnlysoedd eu cyhoeddi hyd yn oed pan fo unigolyn neu gwmni wedi'u clirio o unrhyw fai. Pe bai hwn yn hawliad maleisus, mae'r atgof parhaus yn debygol o ychwanegu at y trawma parhaus i'r rhai a gafodd eu cyhuddo ar gam.

**39. Pa wybodaeth sydd ei hangen i'w chynnwys mewn cofrestr o benderfyniadau a gyhoeddir? Pa fesurau diogelu fyddai eu hangen?**

Rydym yn teimlo mai gwybodaeth gyfyngedig fyddai orau, wedi'i chyfyngu i enw a dyfarniad yn unig, o bosibl. Y rheswm dros hyn yw y gallai unrhyw fanylyn fel cyfeiriad heneiddio'n gyflym, ond hefyd, po fwyaf o wybodaeth sydd ar gael am ddioddefwyr, plant a phobl ddiamddiffyn, y mwyaf o risg sydd o gamfanteisio neu weithgarwch troseddol arall a allai gael eu targedu atynt.

**40. Ydych chi'n meddwl y dylid cyhoeddi sylwadau dedfrydu barnwrol ar-lein / ar gael ar gais? Os felly, ym mha fformat ydych chi'n meddwl y dylent fod ar gael? Esboniwch eich ateb.**

Rydym yn cytuno mewn egwyddor oherwydd dylai alluogi mwy o gyfiawnder agored. Fodd bynnag, byddem am fod yn siŵr bod unrhyw olygiadau i ddiogelu unrhyw blentyn, oedolyn diamddiffyn neu ddioddefwr camdriniaeth rhywiol ac ati yn cael eu gwneud yn gywir ac na fydd modd iddynt gael eu gwrthwneud gan unigolion, technoleg neu AI.

**41. Fel rhywun nad yw'n barti i'r achos, at ba ddiben y byddech chi'n ceisio cael gweld dogfennau'r llys neu'r tribiwnlys?**

Nid ydym yn siŵr pam y byddem ar hyn o bryd, felly nid oes gennym unrhyw sylw.

**42. Ydych chi (heb fod yn barti) yn gwybod pryd y dylech wneud cais i'r llys neu'r tribiwnlys am fynediad at ddogfennau a phryd y dylech wneud cais i sefydliadau eraill?**

Na, nid yw hyn yn glir bob amser, ond mae dogfennau na ddylai fod ar gael am nifer o resymau hefyd, gan gynnwys diogelu dioddefwyr, eu teuluoedd a phobl ddiamddiffyn eraill a allai fod yn gysylltiedig â'r rhai dan sylw, neu'n berthnasau agos iddynt.

**43. Ydych chi (heb fod yn barti) yn gwybod ble i edrych neu â phwy i gysylltu i ofyn am gael gweld dogfennau'r llys neu'r tribiwnlys?**

Ni allwn ateb y cwestiwn hwn o ystyried yr amrywiaeth o aelodau yn y Rhwydwaith, oherwydd mae amrywiaeth o ddealltwriaeth.

**44. Ydych chi (heb fod yn barti) yn gwybod pa fathau o ddogfennau llys neu dribiwnlys sy'n cael eu cadw fel arfer?**

Ni allwn ateb y cwestiwn hwn o ystyried yr amrywiaeth o aelodau yn y Rhwydwaith, oherwydd mae amrywiaeth o ddealltwriaeth.

**45. Beth yw'r prif broblemau rydych chi (heb fod yn barti) wedi dod ar eu traws wrth geisio cael mynediad at ddogfennau llys neu dribiwnlys?**

Nid oes gennym ymateb ar yr amser yma.

**46. Sut gallwn ni egluro'r rheolau a'r canllawiau ar gyfer ceisiadau gan rai nad ydynt yn barti i gael gafael ar ddeunydd a ddarperir i'r llys neu'r tribiwnlys?**

Yn yr un modd â phob math o ymgysylltu a chyfathrebu, dylai gwybodaeth fod ar gael mewn iaith glir, heb jargon, er mwyn i bobl ddeall y gwahanol ddewisiadau a llwybrau sydd ar gael a hefyd unrhyw resymau rheolaidd dros wrthod y ceisiadau, o bosibl.

**47. Ar y lleiaf, pa ddeunydd a ddarperir i'r llys gan bartïon mewn achos ddylai fod ar gael i'r rhai nad ydynt yn bartïon?**

Nid ydym yn credu y dylai unrhyw dystiolaeth fod ar gael. Dylai fod yn gyfyngedig i ddogfennau llys, datganiadau agoriadol a chloi, dyfarniadau / penderfyniadau a sylwadau dedfrydu.

**48. Sut gallwn ni wella mynediad y cyhoedd at ddogfennau'r llys a chryfhau'r prosesau ar gyfer cael gafael arnynt ar draws yr awdurdodaethau?**

Rydym yn pryderu, os bydd gormod o fynediad, gallai gyfyngu ar nifer yr unigolion sy'n fodlon bod yn dystion, lleihau unrhyw bosibilrwydd o aildreial os oes angen, a pheri risg i blant, oedolion diamddiffyn a dioddefwyr eraill. Mae risg o droseddau dynwared os bydd gormod o fanylion ar gael neu risg o weithgarwch vigilante wedi'i gyfiawnhau gan dystiolaeth a welwyd allan o'i chyd-destun, o bosibl.

**49. A ddylid defnyddio rheolau gwahanol ar gyfer ceisiadau drwy gyfryngau newyddion achrededig, neu at ddibenion ymchwil ac ystadegol?**

Efallai, ond rydym yn credu y dylai hyn fod ar sail fesul achos a bod unrhyw benderfyniad yn cael ei drafod a'i gytuno gydag unrhyw ddioddefwyr.

**50. Weithiau gall ceisiadau gan rai nad ydynt yn barti fod ar gyfer nifer o ddogfennau ar draws nifer o lysoedd. Sut y dylem hwyluso'r mathau hyn o geisiadau a gwella'r broses o ddosbarthu swmp o ddogfennau llys sydd ar gael i'r cyhoedd?**

Os ydynt ar gael i'r cyhoedd, dylent fod ar-lein, os yw'r broses wedi'i chwblhau fel a ddisgrifir yn y ddogfen ymgynghori. Felly, os ydynt yn gallu cael mynediad eisoes, nid ydym yn credu bod ei darparu'n ychwanegol yn defnyddio amser ac adnoddau mewn ffordd dda. Gellid eu defnyddio i wella profiad tystion a dioddefwyr o'r llys.

**51. At ba ddibenion y dylai data sy'n deillio o'r system gyfiawnder gael ei rannu a'i ailddefnyddio gan y cyhoedd?**

Nid ydym yn siŵr at bwy ydych chi'n cyfeirio fel cyhoedd yn y cwestiwn hwn, oherwydd gallai'r amrywiaeth o ddibenion posibl fod yn ddiddiwedd os yw'n cynnwys pawb. Rydym yn awyddus i sicrhau bod modd i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol, partneriaid Cyfiawnder Troseddol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru ei ddefnyddio er mwyn deall angen a datblygu cefnogaeth a gwasanaethau priodol, a Phrifysgolion at ddibenion ymchwil. Fodd bynnag, ni fyddem am iddo gael ei ddefnyddio er mwyn galluogi gangiau troseddau cyfundrefnol neu unigolion â bwriad troseddol (gan gynnwys camfanteisiol).

**52. Sut gallwn ni gefnogi mynediad at ac ailddefnyddio data sy'n deillio o'r system gyfiawnder yn gyfrifol?**

Pan fydd data yn y parth cyhoeddus, mae bron yn amhosibl sicrhau mai dim ond at ddibenion cyfrifol, dilys a chyfreithlon y caiff ei ddefnyddio.

**53. Pa fathau o ailddefnyddio data ddylen ni fod yn eu hannog? Rhowch enghreifftiau.**

Rydym yn credu y dylai gael ei ddefnyddio er mwyn galluogi Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, partneriaid Cyfiawnder Troseddol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru a chyrff partneriaeth eraill i ddeall angen a datblygu cefnogaeth a gwasanaethau priodol, a Phrifysgolion at ddibenion ymchwil.

**54. Beth yw'r rhwystr mwyaf i gael gafael ar ddata a'i ailddefnyddio?**

Mae angen i unrhyw achos o gael mynediad at ddata ddigwydd heb dorri unrhyw ddeddfwriaeth a gofynion diogelu data. Dylai fod yn ddi-enw lle bo'n bosibl, a allai gyfyngu ar ei ddefnyddioldeb, a dylai diogelu dioddefwyr, plant ac oedolion diamddiffyn gael blaenoriaeth dros unrhyw ystyriaeth arall, yn ein barn ni.

**55. Oes gennych chi unrhyw dystiolaeth am gamsyniadau cyffredin ynghylch y defnydd o ddata gan drydydd partïon? A oes enghreifftiau o sut y gellir lliniaru'r rhain?**

Nid ar hyn o bryd, ond gweler atebion blaenorol sy'n gysylltiedig â chamfanteisio a gweithgarwch troseddol.

**56. Oes gennych chi dystiolaeth neu brofiad i ddangos sut mae deallusrwydd artiffisial (AI) yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd mewn perthynas â data cyfiawnder? Defnyddiwch eich diffiniad eich hun o'r term.**

Nac oes, nid ydym ar yr amser yma.

**57. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi cyngor agnostig i'r sector yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar ddefnyddio deallusrwydd artiffisial. Pa ganllawiau hoffech chi eu gweld yn cael eu darparu'n benodol ar gyfer y sefydliad cyfreithiol? Yn eich barn chi, a ddylai hyn gael ei ddarparu gan y llywodraeth neu reoleiddwyr y gwasanaethau cyfreithiol?**

Rydym yn credu y dylid bod â chanllaw ar yr angen i ddiogelu ac amddiffyn dioddefwyr, plant ac oedolion diamddiffyn. Dylai gael ei ddatblygu ar y cyd gan y llywodraeth, rheoleiddwyr gwasanaeth cyfreithiol, Comisiynydd Dioddefwyr a Chymorth i Ddioddefwyr.

Rydym yn credu bod AI yn rhy newydd a'i fod yn datblygu'n rhy gyflym er mwyn i ni wybod beth allai ei wneud a sut gellid ei defnyddio yn y dyfodol. Fodd bynnag, gallai fod yn bosibl deddfu fel bod unrhyw ddefnydd o AI sy'n arwain at wybodaeth anghywir, gweithredu troseddol neu gamfanteisiol neu at adnabod unigolion a gaiff eu diogelu trwy'r system gyfiawnder, yn destun y system gyfiawnder ei hun.

**58. Ydych chi'n meddwl bod gan y cyhoedd ddealltwriaeth ddigonol o'n system gyfiawnder, gan gynnwys materion allweddol fel dirmyg llys? Rhowch y rhesymau dros eich ateb.**

Nac ydym, yn enwedig o ran y cyfryngau cymdeithasol a phlatfformau technoleg newydd eraill.

**59. Ydych chi'n credu bod y llywodraeth yn llwyddo i wneud y cyhoedd yn ymwybodol pan fydd datblygiadau neu brosesau newydd yn cael eu gwneud mewn perthynas â'r system gyfiawnder?**

Mae'n bosibl y caiff gwybodaeth ei hanfon allan ond nid ydym yn siŵr a gaiff ei gweld neu ei deall, felly ni allwn roi mwy o sylwadau am y cwestiwn hwn.

**60. Yn eich barn chi, beth yw'r prif fylchau yn nealltwriaeth y cyhoedd o'r system gyfiawnder?**

Mae llysoedd teulu yn faes lle bu rhywfaint o welliant gyda'r newidiadau mwyaf diweddar, ond maen nhw'n dal i fod yn dipyn o ddirgelwch i lawer.

Gall y prosesau sy'n digwydd cyn, yn ystod ac ar ôl ymgysylltu â'r system gyfiawnder ymddangos yn gudd. Mae rheithwyr yn anwybodus yn aml hyd yn oed, felly ychydig o gyfle sydd i siarad a rhannu gwybodaeth am bethau rhwng ei gilydd, os o gwbl – hyd yn oed ac eithrio manylion pob achos.

**61. Ydych chi'n meddwl bod digon o wybodaeth ar gael ar hyn o bryd i helpu'r cyhoedd i lywio drwy'r system gyfiawnder/ceisio cyfiawnder?**

Rydym yn credu ei bod yn anodd i'n haelodau ddefnyddio'r system gyfiawnder ar brydiau ac mae llawer yn gweithio gyda dioddefwyr, diffynyddion a phobl eraill yn y system gyfiawnder neu maen nhw'n rhan ohoni eu hunain. Caiff llysoedd teulu eu gweld fel arbennig o anodd a chyfrinachgar ac mae'r gallu i ddeall a llywio yn dibynnu ar sefyllfa economaidd-gymdeithasol unigolyn ac a allant fforddio eu cyngor cyfreithiol eu hunain, neu a roddir mynediad at gymorth cyfreithiol, ond heb yr un o'r rhain, mae llywio yn arbennig o heriol.

**62. Ydych chi'n credu bod rôl i dechnolegau digidol o ran cefnogi PLE i helpu pobl i ddeall a datrys eu hanghydfodau cyfreithiol? Esboniwch eich ateb.**

Rydym yn credu bod rôl i dechnoleg ddigidol sy'n cefnogi PLE i helpu pobl i ddeall eu dewisiadau'n well o bosibl, a allai arwain at ffyrdd gwell o ddatrys anghydfodau cyfreithiol. Fodd bynnag, ni ddylai cyfiawnder ddibynnu ar pa mor ddeallus yw rhywun neu a allant ddeall y system.

**63. Ydych chi'n credu mai'r llywodraeth sydd yn y sefyllfa orau i wella gwybodaeth am y system gyfiawnder? Rhowch y rhesymau dros eich ateb.**

Na, yn ein barn ni, rydym yn credu bod sefydliadau sy'n gweithio gyda dioddefwyr mewn sefyllfa well a'u bod yn deall yr angen am iaith glir, ddealladwy, ac felly yn credu y dylent gael eu comisiynu i ddatblygu'r dewisiadau i gynyddu gwybodaeth ar draws yr holl systemau llys a thribiwnlys, yn enwedig tribiwnlys, llys teulu, llys ynadon a llysoedd troseddol.

**64. Pwy arall ydych chi'n meddwl all helpu i wella gwybodaeth am y system gyfiawnder?**

Roedd rhaglen neu raglen ddrama-ddogfen yn dangos achos ffug o lofruddiaeth trwy ystafell llys (The Trial: behind the scenes of Channel 4's courtroom docudrama (inews.co.uk). Dywedodd un o fynychwyr ein gweithdy ymgysylltu ei bod yn rhaglen gadarnhaol a bod hyn yn rhywbeth y gellid ei ailadrodd a'i ddefnyddio i gynyddu

gwybodaeth. Gallai hyn roi mwy o realaeth a lleihau'r synwyryddiaeth sy'n digwydd gyda dramâu llys ar y radio, ar y teledu neu mewn ffilmiau.

**65. Pa ddulliau, yn eich barn chi, sydd fwyaf effeithiol ar gyfer gwella gwybodaeth y cyhoedd am y system gyfiawnder e.e. ymgyrchoedd y llywodraeth, y cwricwlwm ysgol, diwrnodau agored llysoedd a thribiwnlysoedd ac ati?**

Mae gwahanol bobl yn dysgu trwy wahanol ffyrdd, felly rydym yn credu bod modd cefnogi cyfuniad o ymgyrchoedd y llywodraeth ar-lein, ar gyfryngau cymdeithasol ac mewn taflenni trwy sicrhau bod y system gyfiawnder yn cynnal diwrnodau agored, a thrwy bethau fel ffug achosion llys sy'n rhoi mwy o realaeth na'r darluniau a gaiff eu creu'n aml gan y cyfryngau.

**Ymateb a gyflwynwyd gan:**

Enw: Sarah Capstick
Sefyllfa: Business and Network Development Manager
Sefydliad: Wales Safer Communities Network, hosted by WLGA
Cyfeiriad: One Canal Parade, Dumballs Road, Cardiff CF10 5BF
E-bost: safercommunities@wlga.gov.uk neu sarah.capstick@wlga.gov.uk

**Ymateb ar ran Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru:**

Mae'r Rhwydwaith yn cynnwys aelodau o Awdurdodau Lleol, Plismona yng Nghymru, y Gwasanaeth Prawf, Gwasanaethau Tân ac Achub a'r Trydydd Sector.